
# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



Herod Antipas

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Herod Antipas



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Roedd Herod Antipas yn fab i Herod Fawr, oedd wedi ceisio lladd Iesu pan oedd yn fabi.
- Roedd Herod Fawr wedi teyrnasu dros Palesteina i gyd ar ran y Rhufeiniaid. Ond pan fu farw, cafodd ei deyrnas ei rhannu rhwng ei bedwar mab. Roedd Herod Antipas yn teyrnasu dros Galilea a Perea.



**Beth Ddigwyddodd**

- Roedd Iesu yn Jerwsalem pan gafodd ei arestio, a cymerwyd ef gyntaf at Peilat, llywodraethwr Jerwsalem.
- Pan ddeallodd Peilat fod Iesu yn dod o Galilea, sef yr ardal dan awdurdod Herod, penderfynodd anfon Iesu at Herod. Roedd Herod yn digwydd bod yn Jerwsalem ar y pryd.
- Roedd Herod wedi clywed am Iesu, ond erioed wedi ei weld. Roedd yn awyddus i weld a fyddai Iesu yn cyflawni rhyw wyrth o'i flaen.
- Roedd Herod yn cwestiynu ac yn gwawdio Iesu, ond wnaeth Iesu ddim ymateb. Am na allai ddod o hyd i dystiolaeth yn cefnogi cyhuddiadau'r rhai oedd wedi gorchymyn arestio Iesu, anfonodd Herod ef yn ôl at Peilat.



**Diffiniad**

- Cyfrifoldeb: Mae cymryd cyfrifoldeb am rywbeth yn golygu derbyn eich bod chi wedi chwarae rhan ynddo.




**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Doedd neb eisiau derbyn y cyfrifoldeb o ddedfrydu Iesu i farwolaeth, fodd bynnag doedd neb mewn awdurdod yn fodlon sefyll dros yr hyn a gredent oedd yn wir ac yn iawn ychwaith.  Weithiau gallwn wneud mwy o ddrwg mewn sefyllfa drwy wneud dim.



**Ystyried**

- Beth wyt ti'n meddwl oedd Herod yn ei deimlo ac yn ei feddwl:
  - pan ddeallodd fod Iesu'n cael ei anfon ato;
  - pan oedd Iesu'n gwrthod siarad neu ymateb iddo;
  - pan anfonodd Iesu yn ôl at Peilat?
- Pa mor anodd ydy sefyll dros yr hyn rwyt yn ei gredu, neu gefnogi rhywun sydd mewn trafferth neu anhawster.